

QWB31.2a – Cofnodion a Gadarnhawyd o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 13 Mai 2020

Mynychwyr:

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Yn Bresennol:

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG) eitem 2, Jo Valentine (JV) - Llywodraeth Cymru, Oliver Stacey (OS) Angela Kent (AK) eitem 2, Helen Murray (HM) Ysgrifennydd Cofnodion.

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchodd Clare Morgan ar ei rôl newydd ym Mhrifysgol Caerdydd fel Dirprwy Is-ganghellor dros dro, Addysg a Myfyrwyr.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw faterion y dymument eu trafod yn y papurau gwybodaeth. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

2. Cymwys ar gyfer y dyfodol: Gweithdy'r Bwrdd ar gwmpas a ffocws yr ymgynghoriad ar ystod o gymwysterau'r dyfodol

- 2.1. Rhoddodd EG y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Cymwys i'r Dyfodol ac esboniodd fod cyhoeddi canfyddiadau a phenderfyniadau'r ymgynghoriad cyntaf wedi'u symud i ddechrau mis Mehefin oherwydd y sefyllfa bresennol o ran Covid-19, wrth ystyried blaenoriaethau canolfannau yn ystod mis Mai. Adroddodd eu bod wedi derbyn sylwadau adeiladol gan Lywodraeth Cymru ar y dogfennau yr edrychodd y Bwrdd arnynt yn y cyfarfod diwethaf (adroddiad dadansoddi'r ymgynghoriad, adroddiad penderfyniadau a chyngor i'r Gweinidog Addysg).
- 2.2. Esboniodd ei fod yn bwriadu cwmpasu pedwar prif faes lle ceisiwyd mewnbwn y Bwrdd: 1) cwmpas ac amlinelliad arfaethedig yr ail ymgynghoriad 2) paramedrau llunio cymwysterau TGAU yn y dyfodol 3) camau nesaf y prosiect 4) trafod y cynigion cychwynol ar gyfer yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r cynnig hwn ar gyfer amlinelliad o'r drafodaeth.

- 2.3. Esboniodd mai cwmpas yr ymgynghoriad nesaf fyddai penderfynu pa gymwysterau ddylai fod yn rhan o'r cynnig yn y dyfodol, gan gynnwys cymwysterau i gefnogi continwwm y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys cymwysterau ar bob lefel a fyddai ar gael yn 16 oed, ac nid oedd wedi'i gyfyngu i gymwysterau TGAU yn unig. Byddai paramedrau llunio cymwysterau TGAU yn y dyfodol hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad. Byddai cwblhau'r ail ymgynghoriad wedyn yn caniatáu i'r gwaith symud i gam nesaf y prosiect lle gellid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau'r cynnig ac i ddechrau datblygu'r gofynion cynllunio ar gyfer cymwysterau unigol.
- 2.4. Yna gwahoddwyd y Bwrdd i roi sylwadau ar y cynigion ar gyfer cwmpas yr ymgynghoriad nesaf. Darparodd y Bwrdd y sylwadau canlynol:
- Dylid ystyried "ffyrdd newydd o weithio" oherwydd pandemig Covid-19 a defnyddio technoleg ddigidol
 - Dylai'r wyth mater y mae Deddf Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol inni eu hystyried a'n prif nodau i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr gael eu nodi'n glir yn yr ymgynghoriad
 - Mae'n bosibl bod pandemig Covid-19 wedi newid hanfodion y cwricwlwm newydd a byddai'n bwysig disgrifio'r cyfeiriad tymor hwy yn yr ymgynghoriad nesaf.
- 2.5. Gofynnodd y Bwrdd a oedd pryderon ynghylch gostyngiadau yn y dyfodol i'r gyllideb sydd ar gael i Cymwysterau Cymru a allai effeithio ar y gwaith yn y dyfodol. Atebodd PB nad oedd gan Cymwysterau Cymru unrhyw arwydd o hyn ar hyn o bryd a'u bod yn disgwyl cwblhau'r cam ymgynghori nesaf yn ôl y bwriad. Os bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru neu gyllidebau a ddyrannwyd yn newid yna byddai hyn yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Bwrdd i drafod opsiynau.
- 2.6. Gofynnodd y Bwrdd am amserlen yr ymgynghoriad ac a fyddai angen adolygu hyn. Adroddodd EG y byddai cyfle i'r Bwrdd edrych ar yr amserlen pan gyflwynid drafft o'r ymgynghoriad i'r Bwrdd ym mis Medi.
- 2.7. Yna amlinellodd EG ddull o ddatblygu paramedrau llunio cymwysterau TGAU a chynigiodd y gallai'r Pwyllgor Rheoleiddio edrych yn fanylach ar hyn ym mis Mehefin. Croesawodd y Bwrdd y dull hwn.
- 2.8. Gofynnodd y Bwrdd am sgiliau asesu athrawon a sut y gellid gweithredu rhaglen ddatblygu i helpu i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau i ddulliau asesu. Cytunodd PB y byddai dull llywodraeth genedlaethol, gan gynnwys efallai Sefydliad Siartredig yr Aseswyr Addysgol, yn fuddiol.
- 2.9. Yna amlinellodd EG sut y byddai'r opsiynau cynnig a ffefrir yn cael eu datblygu ar gyfer ymgynghori. Esboniodd y byddai asesiad effaith cynhwysfawr ar gyfer y gwahanol gynigion. Esboniodd mai'r bwriad oedd cyflwyno'r cynigion terfynol a argymhellir i'r Bwrdd ym mis Medi. Esboniodd ymhellach y byddai cynigion ar sut i sicrhau'r ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym

mis Gorffennaf ac y byddai hwn yn gyfle pellach i'r Bwrdd weld y cynigion tebygol a ffefrir.

- 2.10. Croesawodd y Bwrdd y cyfle i weld y cynigion sy'n datblygu ac awgrymodd ystyried egwyddorion arweiniol lefel uchel neu "linellau coch" ar gyfer y cynigion, er enghraifft, peidio â lleihau cyfleoedd i ddysgwyr yng Nghymru yn niweidiol nac y dylai'r cynigion fod yn gredadwy i'r system addysg.
- 2.11. Dywedodd y Bwrdd fod pandemig Covid 19 wedi tynnu sylw at yr angen i symud ymlaen gan ystyried e-asesu ymhellach yn rhagweithiol ar ddechrau'r broses. Nodwyd hefyd y gallai'r argyfwng gael effaith ariannol andwyol ar rai cyrff dyfarnu. Adroddodd PB fod rhywfaint o waith diwydrwydd dyladwy wedi dechrau monitro statws ariannol Cyrff Dyfarnu yn agosach.
- 2.12. Yna cyflwynodd EG drosolwg o'r opsiynau posibl ar gyfer yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol fel y nodir yn ei bapur. Pwysleisiodd nad oedd y dull gweithredu yn golygu newid er mwyn newid.
- 2.13. Esboniodd fod barn gref wedi dod i'r amlwg yn yr ymgynghoriad cyntaf y dylai unrhyw gymwysterau newydd sicrhau dilyniant i ddysgwyr a bod yn hygyrch i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan ddarparu dewis teg a chyfartal.
- 2.14. Dywedodd y Bwrdd y gallai cynyddu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael mewn pwnc gael effaith andwyol lle gallai niferoedd isel effeithio ar hyfywedd.
- 2.15. Gofynnodd y Bwrdd sut roedd Cymwysterau Galwedigaethol yn cyd-fynd â'r dull gweithredu. Dywedodd CT y bu gostyngiad yn nifer yr asesiadau ymarferol mewn Cymwysterau Galwedigaethol mewn ysgolion ac roedd hyn wedi arwain at ddiffyg dewis i ddysgwyr. Roedd cyfle i unioni'r cydbwysedd hwnnw. Cytunodd aelodau'r Bwrdd ei bod yn bwysig dangos bod yr holl gynnig gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol yn cael ei ystyried.
- 2.16. Nododd y Bwrdd y gallai cadw cymwysterau dynodedig hefyd fod yn ddefnyddiol o ran darparu mwy o ddewis i ddysgwyr.
- 2.17. Soniodd y Bwrdd am yr heriau o sicrhau dewis i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.18. Yna gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau pellach gan y Bwrdd am yr opsiynau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r ystod o gymwysterau yn y dyfodol. Awgrymodd y Bwrdd y pwyntiau canlynol i'w hystyried:
 - Bod yn wiliadwrus o gyfuno gormod o bynciau, neu ormod o ehangder mewn un cymhwyster a lleihau cyfleoedd yn anfwriadol i ddysgwyr symud ymlaen i arbenigedd lefel uwch.
 - Gofalu y gallai gor-gyffredinolli leihau gwerth canfyddedig a chreu dyblygu gyda meysydd pwnc eraill. Tynnwyd sylw at gymhwyster ar "Safbwyntiau Byd-eang" fel pwnc a allai weithio ar draws meysydd pwnc.

- Yr her o ddiwallu anghenion dysgwyr a disgwyliadau rhanddeiliaid ar gyfer cymwysterau i gefnogi'r continwmm Cymraeg. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd yr angen i Lywodraeth Cymru egluro eu disgwyliadau.
- Ystyried adolygu a yw'r cynnig presennol yn darparu llwybrau dilyniant yn ddigonol i gyflogaeth neu addysg neu astudio pellach.
- Ystyried pa adnoddau sydd gan ysgolion o ran staff addysgu a gallu'r system i ddarparu unrhyw gymwysterau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Lle'r oedd disgyblaethau'n cael eu cadw, gallai fod mwy o bwyslais ar ba sgiliau generig y gellir eu hennill.
- Gellid ystyried TGAU newydd mewn Gwyddorau Cymdeithasol ac efallai Llywodraeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol neu Ddatblygu Rhyngwladol – mae'r rhain yn berthnasol i'r sector addysg uwch.
- Mae prifysgolion yn disgwyl lefel ofynnol o wybodaeth mewn perthynas â rhai meysydd pwnc – er enghraifft gramadeg a geirfa mewn ieithoedd a chynnwys gwybodaeth benodol yn y gwyddorau.
- Pwysigrwydd e-asesu i foderneiddio ac adeiladu o ran dewis a hyblygrwydd yn y cymwysterau newydd.
- Ystyried anghenion yr economi a'r sector busnes yn y dyfodol ochr yn ochr ag anghenion addysg uwch.
- Bod angen rhywfaint o newid i gyflawni nodau'r llywodraeth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm - efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio'n dda nawr yn addas at y diben ar ôl cyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Pwysigrwydd edrych tuag allan wrth ddatblygu unrhyw gymhwyster astudiaethau byd-eang ac y byddai cydweithio ar hyn y tu allan i Gymru yn fuddiol.

- 2.19. Gofynnodd y Bwrdd pa mor agos oedd y prosiect at gynnig ar gyfer pob MDPH. Adroddodd EG eu bod yn agos yn y rhan fwyaf o feysydd, ond roedd heriau'n parhau o ran datblygu cynigion ar gyfer agweddau Cymraeg a Saesneg y MDPH ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. . Dywedodd fod llawer o opsiynau posibl ar gyfer MDPH Iechyd a Lles; mae angen mireinio a rhesymoli'r rhain ymhellach, ond gall hwn fod yn faes lle y gallai fod angen i'r ymgynghoriad gynnig mwy nag un dull posibl.
- 2.20. Pwysleisiodd y Cadeirydd y pwynt a godwyd ynglŷn â phwysigrwydd hyfforddiant athrawon a gwahoddodd sylwadau gan JV ar y mater hwn.
- 2.21. Pwysleisiodd JV pa mor bwysig oedd hi bod cymwysterau newydd yn adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a nododd fod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm yn cynnwys costau hyfforddi athrawon i gefnogi'r cwricwlwm newydd a chydabu y byddai angen gwneud mwy o waith ar Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA).
- 2.22. Yna gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol a roddodd y sylwadau canlynol:

- Dywedodd CT, beth bynnag fo maint y newid, y byddai angen i Cymwysterau Cymru fod yn barod i ddangos sut roedd newidiadau'n cefnogi'r cwricwlwm newydd.
- Nododd JR ei bod yn bwysig bod y gyfres o gymwysterau yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd, fel bod yr effaith bosibl ar ddewis lleol dysgwyr a'r cwricwlwm lleol yn cael ei deall.

2.23. Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn fodlon ar nodau, cwmpas a chynnwys yr ymgynghoriad nesaf a'r dull o ddatblygu opsiynau ar gyfer cynigion ar gyfer yr ystod o gymwysterau TGAU yn y dyfodol fel yr amlinellir yn y papur a gyflwynwyd.

2.24. Yna, crynhodd y Cadeirydd y camau nesaf ar gyfer cynnwys y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn yr ymgynghoriad nesaf a nododd y byddai trafodaeth yn cael ei chynnal yn y Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Mehefin ac yna byddai'n cael ei ddwyn yn ôl i Fwrdd mis Medi i'w drafod yn llawn.

2.25. Diolchodd y Cadeirydd i EG a'i dîm am ansawdd y papurau cefndir a'r cyflwyniad.

Crynodeb:

Nododd y Bwrdd:

- Nodau, cwmpas a chynnwys arfaethedig yr ymgynghoriad nesaf;
- Y dull o ddatblygu, mireinio ac asesu effaith y cynigion posibl ar gyfer ymgynghori ymhellach, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Yr opsiynau ar gyfer cynigion ar yr ystod o gymwysterau TGAU yn y dyfodol y gallai fod eu hangen i gefnogi'r cwricwlwm newydd.
- Y Pwyllgor Rheoleiddio fydd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer dylunio cymwysterau TGAU yn y dyfodol ym mis Mehefin.

3. Cyfres Arholiadau'r Haf

3.1. Rhoddodd JR y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y datblygiadau o ran Cyfres Arholiadau'r Haf. Tynnodd JR sylw at y canlynol o'i hadroddiad:

- Cyflwynwyd papur opsiynau ar y gyfres arholiadau i'r Gweinidog Addysg ar 18 Mawrth. Yr opsiynau a gyflwynwyd oedd oedi'r gyfres arholiadau, ei gohirio neu ei chanslo'n llwyr. Yna arweiniodd penderfyniadau'r Gweinidog i gau ysgolion at ei phenderfyniad i ganslo arholiadau. Cyhoeddwyd y ddau benderfyniad ar yr un diwrnod.
- Cyflwynwyd ail bapur i'r Gweinidog ar 26 Mawrth yn amlinellu opsiynau ar gyfer cymwysterau UG ac asesiadau uned blwyddyn 10 a gwnaed penderfyniadau ynghylch y rheini. Derbyniodd Cymwysterau Cymru Gyfarwyddyd Gweinidogol yn ymwneud â chymwysterau cyffredinol ar 6 Ebrill ac un yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol ar 24 Ebrill.
- Nododd JR fod Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn ystyried deiseb yn ymwneud â dysgwyr a oedd i sefyll arholiadau UG. Trefnwyd trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn.

- Y dull cyffredinol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS) oedd y dylid darparu graddau wedi'u cyfrifo ar gyfer cynifer o ddysgwyr â phosibl lle bo hynny'n bosibl.
- Oherwydd ehangder a chymhlethdod y farchnad cymwysterau galwedigaethol, lle'r oedd angen arddangos cymhwysedd ar rai cymwysterau, ni fyddai graddau wedi'u cyfrifo bob amser yn briodol.

3.2. Rhoddodd JR ragor o fanylion am y gwaith a wnaed mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol:

- Rhoddwyd canllawiau i ganolfannau ar 3 Ebrill yn rhoi manylion y data asesu canolfannau a oedd yn ofynnol ganddynt. Gofynnwyd i ganolfannau amcangyfrif pa radd y byddai dysgwyr wedi'i chyflawni pe bai arholiadau wedi'u cynnal ac i ddarparu gradd. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddarau a'u hailgyhoeddi cyn bo hir gan argymhell bod ysgolion yn cofnodi eu prosesau ar gyfer llunio'r dyfarniadau hyn ac yn pwysleisio bod yn rhaid i ysgolion roi sylw i'w dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus.
- Cyhoeddwyd ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y nodau sy'n sail i'r model safoni a'r broses apelio arfaethedig ar 28 Ebrill.
- Mae CBAC yn cynnal dadansoddiad modelu, profi a threialu i asesu modelau safoni a byddai hyn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin.
- Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda CBAC ynghylch beth, os rhywbeth, y gellid ei wneud ar gyfer ymgeiswyr preifat nad oedd ganddynt berthynas â chanolfan.
- Nododd JR fod CCAUC, colegau addysg bellach a Llywodraeth Cymru yn ystyried dilyniant a throthwyon y mae'n rhaid eu cyrraedd i ddysgwyr.
- Ni fyddai dyddiadau diwrnodau canlyniadau yn newid.
- Ni fyddai Cyfres yr Hydref yn cael ei chynnig yng Nghymru.

3.3. Rhoddodd JR ragor o fanylion am y gwaith a wnaed mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol:

- Gwnaed penderfyniadau ar gymwysterau galwedigaethol Cymru yn unig.
- Roedd Ofqual wedi cyhoeddi eu hymgyngoriad ar gymwysterau galwedigaethol a byddai Cymwysterau Cymru yn gweithio'n agos gydag Ofqual ar ganlyniadau'r ymgynghoriad gan fod llawer o gymwysterau galwedigaethol dynodedig yn gweithredu ar draws y tair gwlad.

3.4. Nododd JR fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol a bod adborth defnyddiol wedi dod i law gan y grŵp a bod briff wedi'i roi hefyd i'r Pwyllgor Rheoleiddio.

3.5. O ran cyfathrebu, roedd y cyfryngau cymdeithasol ac ymholiadau a dderbyniwyd yn cael eu monitro'n ofalus.

3.6. Y camau nesaf oedd i CBAC gwblhau'r model safoni a gynigiwyd, gan gwblhau newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio (ar gyfer cymwysterau cyffredinol a

galwedigaethol) er mwyn i gyrff dyfarnu allu gweithredu'r camau eithriadol a chydymffurfio o hyd, dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cwblhau penderfyniadau ymgynghori a gwneud gwaith cynllunio wrth gefn sylweddol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2021.

- 3.7. Yna gwahoddwyd cwestiynau neu sylwadau gan y Bwrdd.
- 3.8. Yna rhoddodd JR ddiweddiad byr ar yr ymgynghoriad 'Trefniadau ar gyfer Cyfres Arholiadau Haf 2020' i'r Bwrdd. Dywedodd y bu nifer sylweddol o ymatebion ac y byddai angen dadansoddi tua 4000 o ymatebion. Dangosodd dadansoddiad cynnar fod dau faes lle'r oedd lefel sylweddol o anghytundeb â chynigion Cymwysterau Cymru a oedd yn ymwneud â'r broses apelio.

Crynodeb:

Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfres arholiadau haf 2020 a'r ymgynghoriad ar "Drefniadau ar gyfer Cyfres Arholiadau Haf 2020"

4. Diweddariad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfres Arholiadau 2020 y Bwrdd

- 4.1 Dechreuodd y Cadeirydd drwy ddiolch i aelodau'r Bwrdd Gweithredol am y gwaith sylweddol a wnaed yn ddiweddar mewn cyfnod byr. Atgoffodd aelodau'r Bwrdd fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i roi rhywfaint o oruchwyliaeth a chefnogaeth ychwanegol i'r Bwrdd Gweithredol, yn unol â'r llythyr DAO a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd cofnodion wedi'u darparu'n rheolaidd i holl aelodau'r Bwrdd. Adroddodd, yn dilyn y penderfyniad i ymgynghori, fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi adolygu'r dull ar gyfer yr ymgynghoriad ar gyfer Cyfres Haf 2020. Cadarnhaodd mai'r Bwrdd llawn fyddai'n gwneud y penderfyniadau ar y materion yr ymgynghorwyd arnynt. Byddai Cofrestr Risgiau Covid 19 hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd llawn. Esboniodd mai rôl arall y grŵp oedd rhoi sicrwydd cyffredinol i'r Bwrdd ynghylch Cyfres Haf 2020.
- 4.2 Codwyd cwestiynau gan aelodau'r Bwrdd am rôl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mewn gohebiaeth e-bost rhwng 2-15 Ebrill, cytunodd y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd i'r penderfyniad i ymgynghori a chefnogi creu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ond roedd rhai wedi cwestiynu'r cylch gorchwyl. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r ffordd ymlaen a gynigiwyd gan y Cadeirydd y byddai penderfyniadau ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Bwrdd llawn. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd hefyd fod aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn goruchwyllo a chraffu, heb gymryd rhan mewn penderfyniadau Gweithredol. Cytunwyd y gellid adolygu cylch gorchwyl y grŵp yn y cyfarfod nesaf.

Crynodeb:

Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.15.

Diwedd